| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 28 Ionawr 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Rheolwr Darparu Gwasanaeth, Refeniw a Budd-daliadau |
| **Teitl** | Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2025/26 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor yw'r mecanwaith a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu cefnogaeth i aelwydydd incwm isel i fodloni eu cyfrifoldeb i dalu treth y cyngor.

1.2 Mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 O 31 Mawrth 2013 daeth budd-dal treth y cyngor i ben a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb o roi cymorth gyda threth y cyngor a'r cyllid sy'n gysylltiedig â hynny i Lywodraeth Cymru.

2.2 Cwblhaodd Llywodraeth Cymru'r ddau set o reoliadau blynyddol ar 24 Ionawr 2025 ac mae'n rhaid i bob un o'r 22 cyngor yng Nghymru fabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a'r Rheoliadau wedi'u diwygio 2025 erbyn 31 Ionawr 2025.

2.3 Mae'r diwygiadau offeryn statudol i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor 2013 yn uwchraddio ffigyrau penodol yn y Rheoliadau hyn a ddefnyddiwyd i gyfrif hawliad i ostyngiad treth y cyngor a chyfanswm unrhyw ostyngiad a ddyfarnir i'r ymgeiswyr ym mlwyddyn ariannol 2025/26 i adlewyrchu'r cynnydd yng nghostau byw. Mae hefyd yn

gwneud mân newidiadau technegol, cyflwyniadol a chanlyniadol i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor 2013.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Fod aelodau yn mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2025/26.

3.2 Bod yr aelodau'n cymeradwyo elfennau dewisol y cynllun, a ddangosir yn adran 4.4, ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

## 4 Manylion yr adroddiad

### 4.1 Y Cynllun Arfaethedig 2025/26

Cytunodd Llywodraeth Cymru y dylai cynllun 2025/26 sydd wedi'i ddiwygio archwilio'r paramedrau canlynol:

- Parhau ag un cynllun a ddiffinnir yn genedlaethol i ddarparu lefel gyson o gymorth i hawlwyr ledled Cymru. Mae lefel uchaf y gefnogaeth wedi ei gosod ar 100%.
- Parhau i ddarparu nifer fach o elfennau dewisol, yn debyg i'r rhai hynny sydd ar gael o dan y cynllun presennol, gan alluogi awdurdodau lleol i ymateb i'w gwahanol amgylchiadau lleol (cyn belled â bod costau unrhyw amrywiadau yn cael eu hariannu'n lleol).
- Parhau i fod yn seiliedig ar ddiwygio'r system Budd-dal Treth y Cyngor blaenorol, tan 2026-27 fel bod risgiau gweithredol yn cael eu rheoli ac y gellir parhau i roi cymorth.

### 4.2 Uwchraddio ar gyfer 2025/26

Mae Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2013 wedi'u diwygio yn uwchraddio ffigyrau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo'r hawl i ostyngiad yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Mae nifer o ffigyrau eraill wedi'u cynnwys yn yr uwchraddio ar gyfer 2025/26. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lwfansau personol mewn perthynas â phremiymau oedran gweithio, gofalwyr ac anabledd. Mae'r ffigyrau ariannol mewn perthynas â'r lwfansau hyn wedi cael eu diwygio ac wedi cynyddu yn unol â chostau byw cynyddol. Bydd y confensiwn yn codi'n unol â ffigwr y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Medi o'r flwyddyn flaenorol (2024), sef 1.7%.
- Lwfansau personol mewn perthynas â phensiynwyr. Mae'r ffigyrau ariannol mewn perthynas â chyfraddau pensiynwyr wedi eu diwygio ac yn cyd-fynd â Budd-dal Tai. Mae'r rhain wedi'u cyfrifo gyda chymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau ac maent wedi cael eu huwchraddio drwy wahanol dechnegau. Er enghraifft, mae Gwarant Safonol Lleiaf y Credyd Pensiwn yn cael ei uwchraddio drwy enillion, tra bod y Pensiwn Ychwanegol a'r cynyddrannau'n cael eu huwchraddio drwy brisiau.
- Didyniadau annibynyddion. Mae'r ffigurau ariannol ar gyfer y bandiau incwm a'r didyniadau a wnaed mewn perthynas ag annibynyddion wedi'u huwchraddio yn ôl y cynnydd cyfartalog yn nhreth y cyngor. Os na chaiff diwygiadau eu gwneud, ni fyddai'r didyniadau o ddyfarniadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor yn briodol gan na fyddai'r trothwyon incwm yn adlewyrchu enillion cyfartalog mwyach, ac ni fyddai'r didyniad yn adlewyrchu cost gyffredinol treth y cyngor.

### 4.3 Diwygiadau Ychwanegol

Yn ychwanegol at uwchraddio'r ffigyrau ariannol, mae'r diwygiadau canlynol yn darparu ar gyfer newidiadau technegol, cyflwyniadol a chanlyniadol i sicrhau fod rheoliadau 2013 yn parhau yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

- Y defnydd o Gredyd Cynhwysol fel bwriad i hawlio o dan Gynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor. Fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar newidiadau arfaethedig gyda'r nod o'i gwneud yn haws i gael mynediad at y Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a'i gwneud yn fwy syml i'w weinyddu. Bydd y diwygiad hwn yn sicrhau pan fo unigolyn yn derbyn Credyd Cynhwysol, a lle mae gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â hawliad wedi'i rannu gyda'r awdurdod lleol, yna bydd yr awdurdod

hwnnw yn trin hynny fel bwriad i ymgeisio o dan Gynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor.

- Unigolion sydd wedi'u Dadleoli o Israel, Palesteina, Lebanon neu Swdan. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi gosod rheoliadau i sicrhau fod unrhyw unigolion sydd wedi'u dadleoli sy'n cyrraedd y DU o unrhyw rai o'r gwledydd a grybwyllwyd yn gallu bodloni amodau'r breswyliaeth. Bydd hyn yn eu galluogi i hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, anabledd a gofalu. Bydd y newid hwn hefyd yn galluogi'r unigolion hynny i hawlio o dan Gynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor yng Nghymru.
- Iawndal Bydd y taliad hwn yn cael ei ddiystyru fel cyfalaf ar gyfer ymgeiswyr sy'n derbyn taliad o'r Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor ar gyfer cyfrif budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm.
- Diddymu'r gofyniad i dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2. Er mwyn adlewyrchu newidiadau i unigolion hunangyflogedig nad oes angen iddynt dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 mwyach, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi gosod rheoliadau i dynnu cyfeiriadau at Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2.
- Consesiwn Mudwyr sy'n Ddioddefwyr Camdriniaeth Ddomestig Gan fod y Swyddfa Gartref wedi diddymu'r cyfeiriad at y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd ac wedi gosod y Consesiwn Mudwyr sy'n Ddioddefwyr Camdriniaeth Ddomestig yn ei le, mae cyfeiriadau newydd wedi eu gosod yn lle'r rhai a oedd yn bodoli o fewn Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor.

**4.4 Elfennau Dewisol ar gyfer Penderfyniad y Cyngor**

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau fabwysiadu elfennau dewisol yn eu cynlluniau ac argymhellir y Cyngor i fabwysiadu'r tair elfen ganlynol, sydd wedi parhau'n gyson ers i'r cynllun gychwyn:

- peidio â chynyddu'r cyfnod talu estynedig safonol o 4 wythnos o Ostyngiadau Treth y Cyngor i ymgeiswyr ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith os ydynt wedi bod yn cael budd-dal cymwys perthnasol.
- diystyru 100% o bensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Rhyfel Gweddw wrth gyfrifo incwm.

- peidio â chynyddu'r cyfnod mwyaf ar gyfer ôl-daliadau i Ostyngiadau Treth y Cyngor y tu hwnt i'r 3 mis safonol.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd mabwysiadu'r cynllun hwn yn helpu pobl ddiamddiffyn gan sicrhau eu bod yn gallu byw mor annibynnol â phosibl a lleihau digartrefedd a thlodi plant. Pe na bai'r ffigyrau uwchraddio'n cael eu mabwysiadu, ni fyddai'r meini prawf cymhwyso'n gyfredol, ac ni fyddai'r trothwyon enillion bellach yn adlewyrchu cost gyffredinol treth y cyngor. Byddai ymgeiswyr dan anfantais wrth i'w hawl i gael cymorth leihau neu ddod i ben. Gallai hefyd achosi dryswch i ymgeiswyr a chynyddu'r baich gweinyddol i'r Awdurdod Lleol a darparwyr cymorth lleol.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae £8.734m wedi ei nodi yn y setliad dros dro ar gyfer cynllun Cymorth Treth y Cyngor Cyngor Sir Ddinbych gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 (£8.815m 2024/25). Fodd bynnag £11.664m yw'r gwariant presennol (2024/25). Os yw treth y cyngor net yn cynyddu o 5% er enghraifft, byddai'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2025/26 tua £12.247m. Mae hyn yn rhoi diffyg o tua £3.513m ar gyfer 2025/26 ac mae darpariaeth gyllidebol wedi ei gwneud ar gyfer hyn ers 2013. Cynigir pwysau cyllideb o £500k i ymdrin â'r cynnydd blynyddol yn nhreth y cyngor fel rhan o gynigion gosod y gyllideb ar gyfer 2025/26.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes Asesiad o'r Effaith ar Les wedi'i wneud ar gyfer yr adroddiad hwn oherwydd bod y cynnig ar gyfer ymestyn y cynllun presennol y cynhaliwyd ymgynghoriad arno yn 2012. Nid oes unrhyw newidiadau o bwys wedi'u cynnig (na newidiadau i'r elfennau dewisol), fodd bynnag mae'n ofyniad cyfreithiol bod y cynllun yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor yn flynyddol.

## 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Nid yw'n berthnasol oherwydd bod hwn yn estyniad o'r cynllun presennol, y cynhaliwyd ymgynghoriad arno yn 2012.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae’n ofynnol i’r Cyngor fabwysiadu cynllun gostyngiadau yn flynyddol. Gan fod cyllid ar gyfer Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor wedi aros yn sefydlog, neu wedi lleihau ledled Cymru ers nifer o flynyddoedd mae effaith y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar y cynllun gostyngiadau yn gorfod cael ei ariannu’n lleol. Bydd y cynigion yn yr adroddiad hwn yn cael eu cynnwys fel rhan o gynigion y gyllideb ar gyfer 2025/26.

## 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae yna risgiau i'r Cyngor pe na bai’n mabwysiadu'r cynllun hwn gan y byddai'n rhaid i Gyngor Sir Ddinbych wedyn fabwysiadu'r cynllun diofyn, a allai gynyddu cyfanswm y gost.

## 11 Pŵer i wneud y penderfyniad

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.